Cylch Gorchwyl

# Pwyllgor Cynghori Cymru

## Cyffredinol

- Mae'r British Council yn meithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y DU a gwledydd eraill drwy'r celfyddydau a diwylliant, addysg a'r iaith Saesneg. I'n helpu gydag ansawdd ac annibyniaeth ein ffordd o feddwl, rydym yn cael cyngor arbenigol gan ein grwpiau cynghori sector a'n pwyllgorau cynghori yng ngwledydd y DU.
- Mae gennym dri o bwyllgorau cynghori sy'n adlewyrchu ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban.
- Fforymau i ddarparu gwybodaeth yw'r pwyllgorau cynghori hyn. Nid oes ganddynt gyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau na phwerau gweithredol.
- Mae'r awdurdod i ffurfio neu ddiddymu Pwyllgor Cynghori Cymru yn nwylo Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

## Pwrpas

Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn:

- rhoi cyngor i Gyfarwyddwr British Council Cymru
- cyfrannu i ddatblygu gweledigaeth, amcanion strategol a blaenoriaethau corfforaethol y British Council ar ran Cymru
- adlewyrchu safbwyntiau ac anghenion partneriaid y British Council a chymunedau targed yng Nghymru
- rhoi gwybodaeth i'r Tîm Arweinyddiaeth Byd-eang drwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol y DU neu Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am faterion o fewn ei gylch gwaith a ystyrir yn arwyddocaol. Gwneir hyn gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru wrth iddi/iddo fynychu dau gyfarfod blynyddol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

## Amcanion

- Cefnogi cenhadaeth y British Council i feithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y DU a gwledydd eraill drwy'r celfyddydau a diwylliant, addysg a'r iaith Saesneg
- Eirioli dros waith y British Council yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang.

- Rhoi cyngor ar ddatblygiad strategaeth y British Council, gan sicrhau drwy'r Ysgrifennydd bod ymgynghori priodol â'r pwyllgor yn digwydd yn ystod y broses gynllunio strategol gorfforaethol
- Sicrhau bod British Council Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o bwys ym mywyd cyhoeddus, addysgol, economaidd a diwylliannol Cymru
- Bod yn sianel i roi cyngor proffesiynol ynglyn â'r meysydd arbenigedd a gynrychiolir ar y pwyllgor, gan gynnig cipolygon ffres a nodi cyfleoedd a thueddiadau newydd
- Creu cysylltiadau â chymunedau yng Nghymru y mae gwaith y British Council yn berthnasol iddynt ac a allai fanteisio ar hynny.

## Aelodaeth

- Bydd Pwyllgor Cynghori Cymru yn cynnwys uchafswm o bymtheg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd.
- Caiff y Cadeirydd a'r aelodau eu penodi am dymor o dair blynedd, a gellir adnewyddu eu haelodaeth unwaith am dair blynedd ychwanegol.
- Bydd Cyfarwyddwr Cymru'n gweithredu fel Ysgrifennydd, ond nid yw'n aelod o'r pwyllgor.
- Gwahoddir Cyfarwyddwr Rhanbarthol y DU i fynychu pob cyfarfod, ond nid yw'n aelod o'r pwyllgor.
- Gall yr Ysgrifennydd enwebu aelod arall o staff i'w helpu gyda'i swyddogaethau, ac eithrio arwyddo llythyron apwyntiad.
- Cedwir rhwng un a thri lle ar y pwyllgor ar gyfer gweision sifil sy'n cynrychioli meysydd datganoledig allweddol (yn arferol - addysg, diwylliant, materion allanol a/neu ddatblygu economaidd).
- Ac eithrio gweision sifil sy'n cynrychioli meysydd datganoledig allweddol, mae aelodau'r pwyllgor yn ymuno fel unigolion yn hytrach nag fel cynrychiolwyr ar ran eu cyflogwr neu unrhyw sefydliad penodol.
- Mae'r British Council yn anelu i sicrhau amrywiaeth o brofiad a gwybodaeth gyflenwol ar draws Pwyllgor Cynghori Cymru i sicrhau bod y pwyllgor yn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas yng Nghymru.
- Caiff aelodau a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru eu recriwtio drwy broses agored a thryloyw ac nid chânt eu talu.

## Cyfarfodydd

- Bydd Pwyllgor Cynghori Cymru yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn fel arfer (ac efallai y cynhelir diwrnod cwrdd i ffwrdd). Pennir nifer y cyfarfodydd a gynhelir fel y gwêl yr Ysgrifennydd yn dda mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.
- Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol mewn cyfarfod, gall yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod hwnnw ethol un o'u plith i fod yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw'n unig.
- Darperir amserlen o gyfarfodydd y pwyllgor i'r aelodau yn ogystal â blaengynllun o eitemau agenda'r cyfarfodydd a baratoir gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd.
- Dylid anfon papurau'r cyfarfod at aelodau'r pwyllgor o leiaf wythnos cyn pob cyfarfod.
- Ar ôl pob cyfarfod o'r pwyllgor, bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi'r cofnodion. Bydd y Cadeirydd yn eu cymeradwyo cyn y cânt eu hanfon at yr aelodau, ddim hwyrach na mis wedi'r cyfarfod.
- Dylid anfon y cofnodion at Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyn gynted â phosibl wedi iddynt gael eu cymeradwyo - i'w rhannu â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## Sianeli cyfathrebu

- Yr Ysgrifennydd yw prif dderbynnydd y cyngor a ddarperir gan y pwyllgor. Yr Ysgrifennydd hefyd sy'n gyfrifol am roi adborth i'r pwyllgor am ddylanwad y mewnbwn hwnnw ar ffyrdd o feddwl am y strategaeth ar gyfer Cymru a'r sefydliad ehangach. Caiff yr adborth ei nodi yn y cofnodion.
- Mae gan Bwyllgor Cynghori Cymru fynediad at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy gyfrwng ei Gadeirydd, a fydd yn mynychu dau gyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn.
- Cyfrifoldeb Cadeirydd ac Ysgrifennydd Pwyllgor Cynghori Cymru yw cynnal cysylltiadau â chyrff cynghori eraill ac unedau busnes y British Council. O bryd i'w gilydd, disgwylir y rhoddir gwahoddiad i gadeiryddion neu aelodau perthnasol o gyrff cynghori eraill ymuno â chyfarfodydd Pwyllgor Cynghori Cymru i gyfrannu i eitemau priodol ar agenda'r pwyllgor.

## Adolygu

- Caiff cylch gorchwyl Pwyllgor Cynghori Cymru ei adolygu'n flynyddol gan Ysgrifennydd a Chadeirydd y pwyllgor, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.